OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 362

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017, a deuant i rym ar 6 Ebrill 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran prynu tir yn orfodol yng Nghymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "deddfiad arbennig" ("*special enactment*") yw—

(a) Deddf leol neu breifat sy'n awdurdodi prynu tir yn orfodol a nodwyd yn benodol yn y Ddeddf honno, neu

(b) darpariaeth sydd—

(i) wedi ei chynnwys mewn Deddf ac eithrio Deddf leol neu breifat, a

(ii) yn awdurdodi prynu tir yn orfodol a nodwyd yn benodol yn y Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981; ac

ystyr "gorchymyn perthnasol" ("*relevant order*") yw gorchymyn sy'n darparu bod y Ddeddf i fod yn gymwys i brynu tir yn orfodol y mae'n ei awdurdodi fel petai'r gorchymyn yn orchymyn prynu gorfodol.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae pryniant gorfodol wedi ei awdurdodi—

(a) gan orchymyn prynu gorfodol, ar y diwrnod y caiff y gorchymyn ei gadarnhau gan Weinidog neu Weinidogion Cymru neu awdurdod arall, neu ei wneud gan Weinidog neu Weinidogion Cymru;

(b) gan orchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(**1**), ar y diwrnod y mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn penderfynu gwneud y gorchymyn o dan adran 13(1) o'r Ddeddf honno;

(c) gan orchymyn adolygu harbwr, gorchymyn grymuso harbwr neu orchymyn cau harbwr o dan Ddeddf Harbyrau 1964(**2**), ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn gan y Gweinidog

(**1**) 1992 p. 42. Gall gorchymyn a wneir o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 awdurdodi caffael tir yn orfodol, *gweler* adran 5 o'r Ddeddf honno, a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau gwneud gorchmynion o dan adrannau 1 a 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eithrio pan fyddai unrhyw orchymyn o'r fath yn cael effaith yng Nghymru a Lloegr, gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, a'r eitem ar gyfer Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 yn Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1964 p. 40. Gall gorchymyn o dan Ddeddf Harbyrau 1964 awdurdodi caffael tir yn orfodol, gweler adrannau 14 ac 16 o'r Ddeddf honno.

priodol(**3**) neu Weinidogion Cymru neu berson sydd wedi ei ddynodi mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 42A(**4**) o'r Ddeddf honno;

(d) gan unrhyw orchymyn perthnasol arall, ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn gan Weinidog neu Weinidogion Cymru; neu

(e) gan ddeddfiad arbennig(**5**), ar y diwrnod y deddfir y deddfiad arbennig.

Ffurfiau rhagnodedig mewn cysylltiad â datganiadau breinio cyffredinol

3.—(1) Mewn perthynas â phrynu tir yn orfodol a awdurdodir ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 —

(a) at ddibenion adran 4(1) o'r Ddeddf, ffurf ragnodedig datganiad breinio cyffredinol yw Ffurflen 1;

(b) at ddibenion adran 6(1) o'r Ddeddf, ffurf ragnodedig hysbysiad sy'n pennu'r tir ac sy'n datgan effaith datganiad breinio cyffredinol yw Ffurflen 2.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at ffurflen â rhif yn gyfeiriadau at y ffurflen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen neu at ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

Dirymu ac arbed

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) 1990(**6**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

(2) Mae'r Rheoliadau a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â phrynu tir yn orfodol a awdurdodir cyn ^ Ebrill 2017.

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2017

(**3**) I gael y diffiniad o "the appropriate Minister" gweler adrannau 14(7) a 15(3) o Ddeddf Harbyrau 1964. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf honno yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â harbyrau pysgodfeydd, gweler yr eitem ar gyfer y Ddeddf honno yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Diwygiwyd yr eitem honno gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) a pharagraff 1 o Atodlen 3 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) Mewnosodwyd adran 42A gan adran 315 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), a pharagraffau 1 a 3(1) o Atodlen 21 iddi.

(**5**) Caiff deddfiad arbennig ddarparu bod y Ddeddf yn gymwys fel petai'r deddfiad yn orchymyn prynu gorfodol.

(**6**) O.S. 1990/497.